Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd

Adroddiad Blynyddol (Hydref 2020 – Hydref 2021)

RHIF ELUSEN GOFRESTREDIG: 1102366

Nant-y-llyn, Cynllwyd Uchaf, Y Bala, Gwynedd.

STRWYTHUR, TREFN LYWODRAETHOL A RHEOLAETH:

Yr Ymddiriedolwyr sy'n rheoli'r Gymdeithas:
(penodwyd ac ailbenodwyd mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Hydref 2019)
Gerallt W. Hughes – Cadeirydd; Beryl H. Griffiths – Ysgrifennydd Cyffredinol; Gwerfyl Price – Trefnydd Cyfarfodydd; Rheinallt G. Llwyd – Trysorydd; A. Lloyd Hughes – Golygydd; Megan Huggins – Ysgrifennydd Aelodaeth; Ffion M. Jones, Golygydd Cynorthwyol.

CYLLID: [Rheinallt G Llwyd]

Mae'r fantolen ariannol am 2020-21 yn rhoi dadansoddiad manwl o sefyllfa ariannol y Gymdeithas sy'n parhau'n weddol foddhaol. Roedd gwarged bychan o £28.88 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

AELODAETH: MAWRTH 2020 – MAWRTH 2021: [Megan Huggins]

CRYNODEB O NIFEROEDD AELODAU						
Diwedd Blwyddyn	Cyfanswm	Oes	Unigol	Teulu	Cymdeithasau Hanes Lleol	Sefydliadau
Maw '20	**235**	5	153	48	3	26
Maw '21	**222**	4	142	48	4	24

CYFARFODYDD: [Gwerfyl Price]

Unwaith eto eleni bu'n rhaid ildio i grafangau'r Covid ac ad-drefnu popeth. Ni fu'n bosib cynnal unrhyw ddigwyddiad wyneb yn wyneb ond, diolch i'r drefn ac i dechnoleg yr oes fodern, bu'n bosib darparu rhaglen rithiol drwy Zoom.

Ar gyfer ein sgwrs gyntaf a gynhaliwyd nos Wener 23ain Ebrill drwy Zoom, cafwyd sgwrs eithriadol ddifyr gan Keith O'Brien ar y testun 'Maes y Magnelau – Trawsfynydd Camp and Ranges'. Sgwrs yn Saesneg oedd hi a hynod ddiddorol oedd deall mai un o'r rhesymau dros ddewis tir Trawsfynydd oedd bod y tirlun, yn benodol Cwm Cain, yn ymdebygu i dirlun De Affrica. Roedd Rhyfel y Böer yn cael ei ymladd ar dir mwy mynyddig ac felly roedd angen ymarferion milwrol ar dir tebyg. Difyr hefyd oedd bod Rhiw Goch yn 'Officer's Mess' – gwych oedd gweld y lluniau bendigedig o'r gwersyll, yr orsaf filwrol a'r hen luniau o Riw Goch a mwy trasig fyth yw gweld adeilad mor hanesyddol yn ei gyflwr presennol.

Yna, ar nos Wener y 25ain Mehefin cawsom gwmni ein hail siaradwr sef yr Athro E. Wyn James a fu'n ein difyrru am ymhell dros awr drwy roi sgwrs yn Gymraeg i ni ar 'Morgan Llwyd: Bardd'. Siaradodd yr Athro James am Morgan Llwyd fel Piwritan digyfaddawd ond na pherthynai iddo'r culni meddwl oedd yn nodweddiadol o'r rhan fwyaf o Biwritaniaid, ac fel un a gyfrannodd at godi ymwybyddiaeth y Cymry o'u cenedl a'u Cymreictod . Mae ei weledigaeth yn amlwg yn *Llyfr y Tri Aderyn*, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1653 ac sy'n creu darlun alegorïaidd ar ffurf sgwrs rhwng tri aderyn – yr eryr yn cynrychioli'r wladwriaeth, y gigfran yn cynrychioli'r eglwys, a'r golomen yn cynrychioli'r Piwritaniaid. Mae'r geiriau hyn yr un mor wir heddiw ag yr oeddent bryd hynny -

Amser byr sy'n torri teyrnas,
Munud awr sy'n codi dinas;
Nid yw dynion ond cysgodau,
Nid yw'r byd ond cysgod angau.
Nid yw'r byd ond rhyw beth bychan,
Llai yw Cymru, lleiaf organ;
Mae'r holl ddaear fel dilledyn
A newidir mewn un flwyddyn.

Diolch o galon i'r ddau siaradwr am draddodi gwledd o hanes i ni. Byddwn yn ystyried cyfarfodydd a digwyddiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf maes o law, ond gobeithiwn yn fawr y gallwn ddarparu rhaglen lawn.

***Y CYLCHGRAWN*:** [A. Lloyd Hughes]

Bydd *Cylchgrawn* eleni (Cyf. XVIII, Rhan IV) yn cael ei ddosbarthu i'r aelodaeth yn ystod mis Hydref fel arfer. Bydd y rhifyn yn 96 tudalen o hyd ac yn cynnwys: 6 erthygl (4 ohonynt gan aelodau'r Gymdeithas), 'Gweithrediadau'r Gymdeithas, 2020' (byr iawn y tro hwn), 3 adolygiad a 9 o luniau. Dymuna'r Golygydd ddiolch yn ddiffuant iawn i'r holl gyfranwyr am eu llafur a'u cefnogaeth i'r *Cylchgrawn* dros y 34 blynedd o'i olygyddiaeth. Hefyd, mae'n eiddgar i ddymuno'r gorau i'w olynydd, Dr Ffion M. Jones, yn y swydd. Yn sicr, bydd y *Cylchgrawn* yn ddiogel yn ei dwylo. Diolchir hefyd i'r holl Swyddogion am eu cydweithrediad a'u cyfeillgarwch dros y blynyddoedd. Dymuniadau gorau i'r Gymdeithas a'r *Cylchgrawn* yn y dyfodol.

Y WEFAN:

Mae'r wefan yn dal yn weithredol gan greu diddordeb yng ngweithgareddau'r Gymdeithas ac yn fodd i werthu'r *Cylchgrawn* a'r mynegai iddo. Mae'r wefan i'w gweld yn: www.hanes-meirionnydd.cymru

DATGANIAD:

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol uchod.

Llofnodwyd ar eu rhan gan Gadeirydd y Gymdeithas,

_____

Gerallt W. Hughes

Dyddiad: _____

Merioneth Historical and Record Society

Annual Report (October 2020 – October 2021)

Registered Charity No: 1102366

Nant-y-llyn, Cynllwyd Uchaf, Y Bala, Gwynedd.

Structure, Governance and Management:

The Trustees who manage the Society:

(appointed and re-appointed at an AGM in October 2019)

Gerallt W. Hughes – Chair; Beryl H Griffiths – General Secretary; Gwerfyl Price – Meetings Organiser; Rheinallt G. Llwyd – Treasurer: A. Lloyd Hughes – Editor; Megan Huggins – Membership Secretary; Ffion M. Jones, Assistant Editor.

Finance: [Rheinallt Llwyd]

The financial statement for 2020-21 provides a detailed account of the financial position of the Society which remains reasonably satisfactory. There was a surplus of £28.88 at the end of the financial year.

Membership: March 2020 – March 2021: [Megan Huggins]

SUMMARY OF MEMBERSHIP NUMBERS						
Year End	Overall	Life	Individual	Family	Local History Societies	Institutions
Mar '19	**235**	5	153	48	3	26
Mar '20	**222**	4	142	48	4	24

Activities: [Gwerfyl Price]

Once again this year, Covid has forced us to reorganise our planned programme of events. It was infeasible to hold any physical event, however modern age technology fortunately meant that we were able to provide a virtual programme through Zoom.

Our first Zoom talk, through the medium of English, was held on Friday evening 23rd April and drew an excellent number of participants. We were treated to an extremely interesting talk by Keith O'Brien on the topic 'Maes y Magnelau – Trawsfynydd Camp and Ranges'. It was fascinating to learn that one of the reasons why the Trawsfynydd Ranges were chosen by the military, and specifically Cwm Cain, was that the surrounding landscape resembled that of South Africa. The Boer War was being fought on more mountainous terrain and military training manoeuvres therefore needed to be conducted on similar ground. It was also interesting to learn that Rhiw Goch had been the 'Officer's Mess' and to listen to Keith's narrative around the wonderful old photographs of the camp, military station and Rhiw Goch itself, bringing home the tragedy of seeing such a historic building in its current condition. Keith's book on which his talk was based is available in Welsh and English – the English version is entitled *Danger Farm: A History of Trawsfynydd Artillery Camp* and is published by Gwasg Llygad [?] Gwalch Cyf.

Then on Friday evening 25th June and once again drawing a very good number of participants, our second speaker, Professor E. Wyn James from Cardiff, gave our annual talk in Welsh entitled 'Morgan Llwyd: Bardd'. Professor James described Morgan Llwyd as an unapologetic Puritan but without the insularity that was characteristic of most Puritans, and who contributed to raising the Welsh people's awareness of their nation and Welshness. This is illustrated in particular in *Llyfr y Tri Aderyn* (A Book of Three Birds) (and by the way there is a translation into English by Rob Mimpriss) being a religious allegory in the form of a conversation between three birds – with the eagle representing the state, the raven expressing the views of the church and the dove representing the Puritans. The following words are as true today as they were then and you will forgive me for not attempting a translation!

Amser byr sy'n torri teyrnas,
Munud awr sy'n codi dinas;
Nid yw dynion ond cysgodau,
Nid yw'r byd ond cysgod angau.
Nid yw'r byd ond rhyw beth bychan,
Llai yw Cymru, lleiaf organ;
Mae'r holl ddaear fel dilledyn
A newidir mewn un flwyddyn.

Hearfelt thanks to both speakers for providing us with a veritable feast of historical narrative. We will be considering meetings and events for 2022 in due course but very much hope that we can offer a fully restored programme.

The *Journal*: [A. Lloyd Hughes]

This year's *Journal* (Vol. XVIII, Part IV) will be despatched to the membership during October as usual. This issue will be 96 pages in length and will comprise: 6 articles (4 of them by members of the Society), 'Proceedings of the Society, 2020' (very short this time), 3 reviews and 9 illustrations. The Editor wishes to express his sincerest appreciation to all the contributors for their labour and support to the Journal during the 34 years of his editorship. Also, he is eager to pass his good wishes to his successor in the post, Dr Ffion M. Jones. He is confident that the *Journal* will be safe in her hands. He also wishes to thank all the Officers for their co-operation and friendship over the years. Best wishes to the Society and the *Journal* in the future.

The Website:

The website is still active creating an interest in the Society's activities and has been valuable in promoting sales of the *Journal* and the index to it. The website can be seen at

www.merioneth-history.wales

Declaration:

The Trustees approve the above Annual Report.

Signed on their behalf by the Chairman of the Society,

_____

Gerallt W. Hughes

Date: _____